Awdurdod Gweithredol
Iechyd a Diogelwch

# Dataganiad Polisi Gorfodi

## Cyflwyniad

Nod yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) yw diogelu iechyd, diogelwch a lles pobl yn y gwaith, a diogelu eraill, aelodau o'r cyhoedd yn bennaf, y gellid eu hamlygu i risgiau o'r ffordd y cynhelir gwaith.

Mae swyddogaethau statudol HSE yn cynnwys cynnig deddfau a safonau newydd neu rai wedi'u diweddaru, cynnal gwaith ymchwil, rhoi gwybodaeth a chyngor, a gwneud trefniadau digonol ar gyfer gorfodi'r gyfraith iechyd a diogelwch mewn perthynas â gweithgareddau gwaith penodol. Mae awdurdodau lleol yn gorfodi'r gyfraith iechyd a diogelwch hefyd mewn gweithleoedd a ddyrennir iddynt – gan gynnwys swyddfeydd, siopau, canolfannau dosbarthu manwerthu a chyfanwerthu, canolfannau hamdden, gwestai a sefydliadau arlwyo.* Gorfodir iechyd a diogelwch mewn perthynas â'r rheilffordd† gan Swyddfa Rheoleiddio'r Rheilffyrdd yn unol â'i pholisi gorfodi ei hun.

Mae'r Datganiad Polisi Gorfodi hwn yn unol â Chod Cydymffurfio Rheoleiddwyr a'r egwyddorion rheoleiddio sy'n ofynnol o dan Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006. Mae'n nodi'r egwyddorion cyffredinol a'r dull y disgwylir i awdurdodau gorfodi iechyd a diogelwch (HSE ac awdurdodau lleol yn bennaf) eu dilyn. Mae'n ofynnol i bob aelod o staff awdurdod lleol a HSE sy'n gwneud penderfyniadau gorfodi ddilyn Datganiad Polisi Gorfodi HSE. Yn gyffredinol, bydd y staff hynny'n arolygwyr, felly mae'r polisi hwn yn cyfeirio at arolygwyr er hwylustod.

Mae'r defnydd priodol o bwerau gorfodi, gan gynnwys erlyn, yn bwysig er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r gyfraith ac er mwyn sicrhau bod y rhai sydd â dyletswydd oddi tani yn atebol am unrhyw fethiannau i ddiogelu iechyd, diogelwch a lles.

Wrth ddyrannu adnoddau, dylai awdurdodau gorfodi ystyried yr egwyddorion a nodir isod, yr amcanion a gyhoeddir yng Nghynllun Busnes HSE a'r angen i gadw cydbwysedd rhwng gorfodi a gweithgareddau eraill, yn cynnwys arolygu.

---

* Mae Safon Adran 18 HSE, *Making a difference*, yn nodi beth yw trefniadau digonol gorfodi'r gyfraith iechyd a diogelwch ar gyfer awdurdodau lleol a Chyfarwyddiaeth Gweithrediadau Maes HSE.

† Rheilffordd fel y'i diffinnir yn Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Awdurdod Gorfodi ar gyfer Rheilffyrdd a Systemau Trafnidiaeth Tywysedig Eraill) 2006.

# Datganiad Polisi'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ar Orfodi

Y canlynol yw testun llawn y datganiad:

## Diben a dull gorfodi

1 Prif ddiben awdurdodau gorfodi yw sicrhau bod deiliaid dyletswyddau yn gofalu am risgiau ac yn eu rheoli'n effeithiol, a thrwy hynny'n atal niwed. Mae gan y term 'gorfodi' ystyr eang ac mae'n berthnasol i unrhyw gysylltiadau rhwng awdurdodau gorfodi a'r rhai y mae'r gyfraith yn rhoi dyletswydd arnynt (cyflogwyr, yr hunangyflogedig, cyflogeion ac eraill).

2 Diben gorfodi yw:

- sicrhau bod deiliaid dyletswyddau yn cymryd camau gweithredu ar unwaith i ymdrin â risgiau difrifol;
- hyrwyddo a chyflawni cydymffurfiaeth barhaus â'r gyfraith;
- sicrhau bod deiliaid dyletswyddau sy'n torri gofynion iechyd a diogelwch, a chyfarwyddwyr neu reolwyr sy'n methu yn eu dyletswyddau, yn atebol, a allai gynnwys dod â throseddwyr honedig o flaen llysoedd yng Nghymru a Lloegr, neu argymell erlyniad yn yr Alban, o dan yr amgylchiadau a nodir yn ddiweddarach yn y polisi hwn.

Mae gorfodi yn fater ar wahân i hawliadau sifil am iawndal ac nid ymgymerir ag ef o dan bob amgylchiad lle y gellir dilyn hawliad sifil neu gynorthwyo hawliadau o'r fath.

3 Mae gan awdurdodau gorfodi amrywiaeth o ddulliau y gallent eu defnyddio wrth geisio sicrhau cydymffurfiaeth â'r gyfraith a sicrhau ymateb call i droseddau. Gall arolygwyr gynnig gwybodaeth i ddeiliaid dyletswyddau a chyngor, wyneb yn wyneb neu'n ysgrifenedig. Gall hyn gynnwys rhybuddio deiliaid dyletswyddau eu bod, ym marn yr arolygydd, yn methu â chydymffurfio â'r gyfraith. Lle y bo'n briodol, gall arolygwyr hefyd gyflwyno hysbysiadau gwella a gwahardd, tynnu cymeradwyaeth yn ôl, amrywio amodau neu eithriadau trwydded, cyflwyno rhybuddion syml* (yng Nghymru a Lloegr yn unig), a gallent erlyn (neu gyflwyno adroddiad i'r Procuradur Ffisgal gyda'r bwriad o erlyn yn yr Alban).

4 Rhoi gwybodaeth a chyngor, cyflwyno hysbysiadau gwella neu wahardd, a thynnu trwyddedau neu awdurdod arall yn ôl neu eu hamrywio, yw'r prif ddulliau a ddefnyddir gan arolygwyr i gyflawni nod eang ymdrin â risgiau difrifol, sicrhau cydymffurfiaeth â'r gyfraith iechyd a diogelwch ac atal niwed. Mae hysbysiad gwahardd yn atal gwaith er mwyn atal anaf personol difrifol. Dylai gwybodaeth am hysbysiadau gwella a gwahardd fod ar gael i'r cyhoedd.

5 Mae pob hysbysiad gwella yn cynnwys datganiad y cyflawnwyd trosedd ym marn arolygydd. Gellir defnyddio hysbysiadau gwella a gwahardd, a chyngor ysgrifenedig, mewn achosion llys.

---

* Mae rhybudd syml yn ddatganiad gan arolygydd, a dderbynnir yn ysgrifenedig gan ddeiliad dyletswydd, ei fod wedi cyflawni trosedd y mae posibilrwydd realistig y gallai gael collfarn amdani. Dim ond lle y gellir cynnal erlyniad cywir y gellir defnyddio rhybudd syml. Mae 'rhybuddion syml' yn gwbl ar wahân i rybudd a roddir o dan Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 gan arolygydd cyn holi rhywun a ddrwgdybir am drosedd honedig. Dylai awdurdodau gorfodi ystyried canllawiau presennol y Swyddfa Gartref wrth ystyried a ddylid cynnig rhybudd syml.

6 Mae erlyniad ac, os yw'n briodol, rhybuddion syml, yn ffyrdd pwysig o ddwyn deiliaid dyletswyddau i gyfrif am achosion o dor-cyfraith honedig. Lle y bo'n briodol gwneud hynny yn unol â'r polisi hwn, dylai awdurdodau gorfodi ddefnyddio un o'r mesurau hyn yn ogystal â chyflwyno hysbysiad gwella neu wahardd.

7 Mae'n hanfodol archwilio'r amgylchiadau y deuir ar eu traws yn ystod arolygiadau neu ar ôl digwyddiadau neu gwynion cyn cymryd unrhyw gamau gorfodi. Wrth benderfynu pa adnoddau i'w rhoi i'r ymchwiliadau hyn, dylai awdurdodau gorfodi ystyried yr egwyddorion gorfodi a nodir yn y datganiad hwn a'r amcanion a gyhoeddir yng Nghynllun Busnes HSE. Yn arbennig, wrth ddyrannu adnoddau, rhaid i awdurdodau gorfodi sicrhau cydbwysedd rhwng ymchwiliadau a gweithgaredd atal yn bennaf.

8 Weithiau mae'r gyfraith yn rhagnodol - gan fanylu ar yr hyn sy'n rhaid ei wneud. Fodd bynnag, mae llawer o gyfraith iechyd a diogelwch fodern yn gosod nodau - nodi'r hyn sy'n rhaid ei gyflawni, ond nid sut y mae'n rhaid ei wneud. Mae cyngor ar sut i gyflawni'r nodau'n aml wedi'i nodi mewn Codau Ymarfer Cymeradwy (ACOP). Maent yn rhoi cyngor ymarferol ar gydymffurfiaeth ac mae ganddynt statws cyfreithiol arbennig. Os caiff rhywun ei erlyn am dorri cyfraith iechyd a diogelwch ac na ddilynodd ddarpariaethau perthnasol ACOP, yna mae'n ddyletswydd arno i ddangos ei fod wedi cydymffurfio â'r gyfraith mewn ffordd arall. Mae cyngor hefyd yng nghanllawiau eraill HSE sy'n disgrifio arfer da. Nid yw'n ofynnol dilyn y canllawiau hyn, ond fel arfer mae gwneud hynny'n ddigon i gydymffurfio â'r gyfraith. Nid yw ACOP na chanllawiau yn cyd-fynd yn union â phob achos o reidrwydd. Wrth ystyried a gydymffurfiwyd â'r gyfraith, mae angen i arolygwyr ystyried ACOP a chanllawiau perthnasol, gan ddefnyddio barn resymol am raddau'r risgiau a'r ymdrech a wnaed i'w hatal. Ceir mwy am y materion hyn yn y datganiad hwn.

9 Mae HSE yn disgwyl i awdurdodau gorfodi ddefnyddio disgresiwn wrth benderfynu archwilio neu pa gamau gorfodi a fyddai'n addas. Dylai awdurdodau gorfodi nodi'r broses gwneud penderfyniadau'n ysgrifenedig y dylai arolygwyr ei dilyn wrth benderfynu ar gamau gorfodi, a sicrhau ei bod ar gael i'r cyhoedd. Mae HSE yn disgwyl i farn o'r fath gael ei gwneud yn unol â'r egwyddorion canlynol. Mae'r rhain yn unol â Chod Cydymffurfio Rheoleiddwyr a'r egwyddorion rheoleiddio sy'n ofynnol o dan Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006.

## Egwyddorion gorfodi

10 Cred HSE mewn gorfodaeth gadarn ond teg o gyfraith iechyd a diogelwch. Dylid ei llywio gan egwyddorion cymesuredd wrth gymhwyso'r gyfraith a sicrhau cydymffurfiaeth; cysondeb ymagwedd; targedu camau gorfodi; tryloywder ynglŷn â sut y mae'r rheoleiddiwr yn gweithredu a'r hyn y gall y rhai a reoleiddir ei ddisgwyl; ac atebolrwydd ar gyfer camau'r rheoleiddiwr. Dylai'r egwyddorion hyn fod yn gymwys i orfodi mewn achosion penodol ac i waith rheoli awdurdodau gorfodi iechyd a diogelwch o weithgareddau gorfodi'n gyffredinol.

### *Cymesuredd*

11 Mae cymesuredd yn golygu camau gorfodi mewn perthynas â risgiau.* Mae'r rhai y mae'r gyfraith yn eu diogelu a'r rhai y mae'n rhoi dyletswyddau iddynt (deiliaid dyletswyddau) yn disgwyl i'r camau a gymerir gan awdurdodau gorfodi i gyflawni cydymffurfiaeth neu ddwyn deiliaid dyletswyddau i gyfrif am beidio â chydymffurfio fod yn gymesur ag unrhyw risgiau i iechyd a diogelwch, neu i ddifrifoldeb unrhyw achos o dor-cyfraith sy'n cynnwys unrhyw niwed gwirioneddol neu bosibl sy'n deillio o'r achos o dor-cyfraith.

* Yn y polisi hwn, diffinnir 'risg' (lle y defnyddir y term ar ei ben ei hun) yn eang i gynnwys ffynhonnell bosibl o niwed, y tebygolrwydd y gallai niwed gael ei achosi, a difrifoldeb unrhyw niwed.

12 Yn ymarferol, mae cymhwyso'r egwyddor o gymesuredd yn golygu y dylai awdurdodau gorfodi ystyried yn benodol i ba raddau mae'r deiliad dyletswydd wedi methu â gweithredu yn ôl gofynion y gyfraith a maint y risg i bobl sy'n deillio o'r methiant hwnnw.

13 Mae rhai dyletswyddau iechyd a diogelwch yn benodol ac yn absoliwt. Mae eraill yn gofyn am gamau gweithredu cyhyd ag y bo'n rhesymol ymarferol. Dylai awdurdodau gorfodi ddefnyddio'r egwyddor o gymesuredd mewn perthynas â'r naill fath o ddyletswydd a'r llall.

14 Mae penderfynu ar beth sy'n rhesymol ymarferol ar gyfer rheoli risgiau yn cynnwys arfer barn. Lle mae'n rhaid i ddeiliaid dyletswyddau reoli risgiau cyhyd ag y bo'n rhesymol ymarferol, rhaid i awdurdodau gorfodi sy'n ystyried mesurau diogelu a gymerir gan ddeiliaid dyletswyddau ystyried graddau'r risg ar y naill llaw a'r aberth ar y llaw arall, boed hynny'n ariannol, o ran amser neu drafferth, sy'n gysylltiedig â'r mesurau angenrheidiol i osgoi'r risg. Oni ellir dangos bod anghyfartaledd dybrys rhwng y ffactorau hyn a bod y risg yn ansylweddol mewn perthynas â'r gost, rhaid i'r deiliad dyletswydd gymryd camau a mynd i gostau i leihau'r risg.

15 Bydd yr awdurdodau yn disgwyl i arfer da perthnasol gael ei ddilyn. Lle na sefydlir arfer da perthnasol clir mewn achosion penodol, mae cyfraith iechyd a diogelwch yn ei gwneud yn ofynnol i ddeiliaid dyletswyddau nodi'n benodol arwyddocâd y risgiau er mwyn pennu pa gamau sydd angen eu cymryd. Yn y pen draw, y llysoedd sy'n pennu'r hyn sy'n rhesymol ymarferol mewn achosion penodol.

16 Gall rhai risgiau anostyngadwy fod mor ddifrifol fel na ellir eu caniatáu, waeth beth yw'r canlyniadau.

### *Targedu*

17 Mae targedu yn golygu sicrhau y targedir cysylltiadau'n bennaf ar y rhai y mae eu gweithgareddau'n achosi'r risgiau mwyaf difrifol neu lle y rheolir y peryglon gwaethaf; a chanolbwyntir y gweithredu hynny ar ddeiliaid dyletswyddau sy'n gyfrifol am y risg ac sydd yn y sefyllfa orau i'w rheoli – boed yn gyflogwyr, gweithgynhyrchwyr, cyflenwyr neu eraill.

18 Mae HSE yn disgwyl i awdurdodau gorfodi feddu ar systemau ar gyfer penderfynu pa arolygiadau, ymchwiliadau neu gysylltiadau rheoliadol eraill y dylid eu blaenoriaethu yn ôl natur a graddau'r risgiau a achosir gan weithrediadau deiliad dyletswydd. Mae cymhwysedd rheoli deiliad dyletswydd yn bwysig oherwydd y gall safle risg cymharol isel nad yw wedi'i reoli'n dda achosi mwy o risg i weithwyr neu'r cyhoedd na safle risg uwch lle y mae mesurau rheoli risg cywir a digonol ar waith. Bydd safleoedd risg uchel iawn penodol yn cael arolygiadau rheolaidd fel y gall awdurdodau gorfodi sicrhau'r cyhoedd y caiff y risgiau hynny eu rheoli'n gywir.

19 Anelir unrhyw weithred gorfodi at ddeiliaid dyletswyddau sy'n gyfrifol am dor-cyfraith. Gallai hyn olygu cyflogwyr mewn perthynas â gweithwyr neu eraill sy'n agored i risgiau; yr hunangyflogedig; perchnogion adeiladau; cyflenwyr offer; dylunwyr neu gleientiaid prosiectau; neu gyflogeion eu hunain. Lle y mae gan nifer o ddeiliaid dyletswyddau gyfrifoldebau, gall awdurdodau gorfodi gymryd camau yn erbyn mwy nag un os yw'n briodol gwneud hynny yn unol â'r polisi hwn.

20 Pan fydd arolygwyr yn cyflwyno hysbysiadau gwella neu wahardd; tynnu cymeradwyaeth yn ôl; amrywio amodau neu eithriadau trwydded; cyflwyno rhybuddion ffurfiol; neu erlyn; dylai awdurdodau gorfodi sicrhau yr hysbysir uwch swyddog y deiliad dyletswydd, ar lefel bwrdd, hefyd.

### *Cysondeb*

21 Nid yw ymagwedd gyson yn golygu unffurfiaeth. Mae'n golygu cymryd ymagwedd debyg o dan amgylchiadau tebyg i'r perwyl tebyg.

22 Mae deiliaid dyletswyddau sy'n rheoli risgiau tebyg yn disgwyl ymagwedd gyson gan awdurdodau gorfodi o ran y cyngor a roddir; y defnydd o hysbysiadau gorfodi, cymeradwyaeth, ac ati; penderfyniadau o ran erlyn ai peidio; ac wrth ymateb i ddigwyddiadau.

23 Mae HSE yn cydnabod nad yw cysondeb yn fater syml yn ymarferol. Wynebir arolygwyr HSE ac awdurdodau lleol gan lawer o newidynnau gan gynnwys graddau'r risg, agwedd a chymhwysedd y rheolwyr, unrhyw hanes o ddigwyddiadau neu dor-cyfraith yn gysylltiedig â'r deiliad dyletswydd, camau gorfodi blaenorol, a difrifoldeb unrhyw achos o dor-cyfraith, sy'n cynnwys unrhyw niwed posibl neu wirioneddol sy'n deillio o achos o dor-cyfraith. Mae penderfyniadau am gamau gorfodi yn ddewisol, gan gynnwys barn gan y gorfodwr. Dylai fod gan bob awdurdod gorfodi drefniadau ar waith i hyrwyddo cysondeb wrth arfer disgresiwn, gan gynnwys trefniadau effeithiol ar gyfer cysylltu ag awdurdodau gorfodi eraill.

### *Tryloywder*

24 Mae tryloywder yn golygu helpu deiliaid dyletswyddau i ddeall yr hyn a ddisgwylir ohonynt a'r hyn y dylent ei ddisgwyl gan awdurdodau gorfodi. Hefyd, mae'n golygu egluro i ddeiliaid dyletswyddau nid yn unig yr hyn sydd angen iddynt ei wneud ond, lle y bo'n berthnasol, yr hyn nad oes angen iddynt ei wneud. Golyga hynny y dylid gwahaniaethu rhwng gofynion statudol a chyngor neu arweiniad am yr hyn sy'n ddymunol ond nad yw'n orfodol.

25 Mae tryloywder hefyd yn golygu y dylai'r awdurdodau gorfodi feddu ar drefniadau ar gyfer rhoi gwybodaeth i gyflogeion, eu cynrychiolwyr, a dioddefwyr neu eu teuluoedd. Rhaid i'r trefniadau hyn ystyried cyfyngiadau a gofynion cyfreithiol.

26 Mae'r datganiad hwn yn gosod y fframwaith polisi cyffredinol y dylai awdurdodau gorfodi weithredu oddi fewn iddo. Mae angen i ddeiliaid dyletswyddau, cyflogeion, eu cynrychiolwyr ac eraill wybod beth i'w ddisgwyl hefyd pan fydd arolygydd yn galw a pha hawliau cwyno sy'n agored iddynt. Nodir gweithdrefnau cwynion ar wefan HSE. Yn ogystal, mae'n ofynnol i bob arolygydd awdurdod gorfodi gyflwyno taflen HSE *Beth i'w ddisgwyl pan fydd arolygydd iechyd a diogelwch yn galw* i'r rhai maent yn ymweld â hwy. Mae'n egluro'r hyn y gall cyflogwyr a chyflogeion a'u cynrychiolwyr ei ddisgwyl pan fydd arolygydd iechyd a diogelwch yn ymweld â gweithle. Yn arbennig:

- pan fydd arolygydd yn rhoi gwybodaeth, neu gyngor i ddeiliaid dyletswyddau, wyneb yn wyneb neu'n ysgrifenedig, yn cynnwys unrhyw rybuddion, bydd arolygwyr yn dweud wrth y deiliad dyletswydd beth i'w wneud i gydymffurfio â'r gyfraith ac yn egluro pam. Os gofynnir iddynt, bydd arolygwyr yn ysgrifennu i gadarnhau unrhyw gyngor ac i wahaniaethu rhwng gofynion cyfreithiol a chyngor arfer da;
- mewn achos o hysbysiadau gwella, bydd yr arolygydd yn trafod yr hysbysiad a, lle y bo'n bosibl, yn datrys unrhyw wahaniaethau cyn ei gyflwyno. Bydd yr hysbysiad yn dweud yr hyn sydd angen ei wneud, pam ac erbyn pryd, a pha dor-cyfraith a gyflawnwyd, ym marn yr arolygydd;
- yn achos hysbysiad gwahardd, bydd yr hysbysiad yn egluro pam bod y gwaharddiad yn angenrheidiol.

### *Atebolrwydd*

27 Mae rheoleiddwyr yn atebol i'r cyhoedd am eu gweithredoedd. Golyga hyn fod yn rhaid i awdurdodau gorfodi feddu ar bolisïau a safonau (fel y pedair egwyddor gorfodi uchod) y gellir eu barnu yn eu herbyn, a dull effeithiol a hawdd ei ddefnyddio ar gyfer ymdrin â sylwadau a chwynion.

28 Nodir gweithdrefnau HSE ar gyfer ymdrin â sylwadau a chwynion yn y daflen *Beth i'w ddisgwyl pan fydd arolygydd iechyd a diogelwch yn galw* ac ar wefan HSE. Yn arbennig, maent yn:

- disgrifio gweithdrefn gwyno mewn achos o benderfyniadau gan swyddogion, neu os na ddilynwyd gweithdrefnau;
- egluro'r hawl i apelio i Dribiwnlys Cyflogaeth mewn achos o hysbysiadau statudol.

29 Mae gan awdurdodau lleol eu gweithdrefnau cwyno eu hunain – mae manylion ar gael gan awdurdodau unigol.

## Ymchwiliad

30 Fel gydag erlyniad, mae HSE yn disgwyl i awdurdodau gorfodi ddefnyddio disgresiwn wrth benderfynu p'un a ddylid ymchwilio i ddigwyddiadau, achosion o salwch, neu gwynion. Fel arfer nodir targedau dangosol sy'n gysylltiedig â lefelau ymchwiliad gan HSE yng Nghynllun Busnes HSE, a gymeradwyir gan y Llywodraeth.

31 Cynhelir ymchwiliadau er mwyn pennu:

- achosion;
- a gymerwyd camau gweithredu neu a oes angen cymryd camau gweithredu i atal achos rhag digwydd eto ac i sicrhau cydymffurfiaeth â'r gyfraith;
- y gwersi i'w dysgu a dylanwadu ar y gyfraith a chanllawiau;
- pa ymateb sy'n briodol i dor-cyfraith.

32 Er mwyn cynnal ymateb cymesur, bydd y rhan fwyaf o'r adnoddau sydd ar gael ar gyfer ymchwilio i ddigwyddiadau yn cael eu neilltuo ar gyfer yr achosion mwy difrifol. Mae Cynllun Busnes HSE yn cydnabod nad yw'n bosibl nac yn angenrheidiol at ddibenion Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ac ati 1974 ymchwilio i bob achos o beidio â chydymffurfio â'r gyfraith a ddatgelir yn ystod arolygiad ataliol, nac wrth ymchwilio i ddigwyddiadau a gofnodir.

33 Dylai'r awdurdodau gorfodi gynnal ymchwiliad ar y safle o farwolaeth sy'n gysylltiedig â'r gwaith y mae angen ei gofnodi, onid oes rhesymau penodol dros beidio â gwneud hynny, ac yn yr achos hwnnw, dylid cofnodi'r rhesymau hyn.

34 Wrth ddewis pa gwynion neu gofnodion o ddigwyddiadau, anaf neu salwch galwedigaethol y dylid ymchwilio iddynt ac wrth benderfynu pa lefel o adnoddau y dylid eu defnyddio, dylai'r awdurdodau gorfodi ystyried y ffactorau canlynol:

- difrifoldeb a maint y niwed posibl neu wirioneddol;
- difrifoldeb unrhyw achos posibl o dor-cyfraith;
- gwybodaeth am berfformiad iechyd a diogelwch y deiliad dyletswydd yn y gorffennol;
- blaenoriaethau gorfodi;
- ymarferoldeb cyflawni canlyniadau;
- perthnasedd ehangach y digwyddiad, yn cynnwys pryder difrifol i'r cyhoedd.

## Erlyniad

### *Cymru a Lloegr*

35 Yng Nghymru a Lloegr erys y penderfyniad i fynd ag achos llys yn ei flaen gyda'r awdurdodau gorfodi. Rhaid i awdurdodau gorfodi ddefnyddio disgresiwn wrth benderfynu a ddylid erlyn.

36 Yng Nghymru a Lloegr dylai'r penderfyniad i erlyn ystyried y cam tystiolaethol a'r ffactorau budd y cyhoedd perthnasol a nodir gan y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus yn y Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron. Ni ddylai unrhyw erlyniad barhau

onid oes digon o dystiolaeth ym marn yr erlynydd i roi posibilrwydd realistig o gollfarn, a'i fod yn penderfynu y byddai erlyniad er budd y cyhoedd.

37 Er mai prif ddiben awdurdodau gorfodi yw sicrhau bod deiliaid dyletswyddau yn gofalu am risgiau ac yn eu rheoli'n effeithiol, a thrwy hynny'n atal niwed, mae erlyniad yn rhan hanfodol o orfodi. Mae HSE yn disgwyl, yn ystod ymchwiliad, os bydd awdurdod gorfodi wedi casglu tystiolaeth ddigonol i roi posibilrwydd realistig o gollfarn a'i fod wedi penderfynu, yn unol â'r polisi hwn a chan ystyried y Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron, y byddai er budd y cyhoedd i erlyn, y dylai'r erlyniad hwnnw fynd yn ei flaen. Mae'n ofynnol yn ôl y Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron i'r penderfyniad i erlyn gael ei adolygu'n barhaus fel y gall unrhyw ffeithiau neu amgylchiadau newydd, sy'n cefnogi neu'n tanseilio achos yr erlyniad, gael eu hystyried yn y penderfyniad i barhau neu ddod â'r achos i ben. Lle mae'r amgylchiadau yn gwarantu hynny ac mae'r dystiolaeth sy'n cefnogi achos ar gael, gall awdurdodau gorfodi erlyn heb rybudd blaenorol nac atebolrwydd i sancsiynau amgen.

### *Yr Alban*

38 Yn yr Alban y Procuradur Ffisgal sy'n penderfynu a ddylid erlyn. Gall hyn fod ar sail argymhelliad gan awdurdod gorfodi; er y gall y Procuradur Ffisgal ymchwilio i amgylchiadau a chychwyn achos yn annibynnol ar awdurdod gorfodi. Rhaid i awdurdodau gorfodi ddefnyddio disgresiwn wrth benderfynu a ddylid rhoi gwybod i'r Procuradur Ffisgal gyda'r bwriad o erlyn. Mae Swyddfa'r Goron a Gwasanaeth y Procuradur Ffisgal yn ardystio'r Datganiad hwn gan HSE, ac maent yn cydnabod y dylai'r camau gweithredu ar gofnodi troseddau a gyflwynir iddynt gan yr awdurdodau gorfodi adlewyrchu'r ymagwedd a nodir yma.

39 Yn yr Alban, cyn y gellir dechrau erlyniadau, bydd angen i'r Procuradur Ffisgal gael ei fodloni bod tystiolaeth ddigonol a bod yr erlyniad er budd y cyhoedd. Felly, yn yr Alban, mae'r penderfyniad i erlyn yn un i'r erlynydd yn hytrach na'r awdurdod gorfodi, yr ystyrir ei farn, fodd bynnag.

40 Yn amodol ar yr uchod, mae HSE yn disgwyl, er budd y cyhoedd, y dylai awdurdodau gorfodi erlyn fel arfer neu argymell erlyniad lle y mae un neu fwy o'r amgylchiadau canlynol yn berthnasol, ar ôl ymchwiliad neu gysylltiad rheoliadol arall. Lle:

- achoswyd marwolaeth o ganlyniad i dor-cyfraith;*
- mae difrifoldeb trosedd honedig, ynghyd â difrifoldeb unrhyw niwed gwirioneddol neu bosibl, neu record ac ymagwedd gyffredinol y troseddwr yn ei warantu;
- bu esgeulustra di-hid o ofynion iechyd a diogelwch;
- bu achosion niferus o dor-cyfraith sydd wedi arwain at risg sylweddol, neu gydymffurfiaeth wael barhaus a sylweddol;
- cynhaliwyd gwaith heb gydymffurfio neu mewn achos difrifol o beidio â chydymffurfio â thrwydded neu achos o ddiogelwch priodol;
- gwelir bod safon rheoli iechyd a diogelwch deiliad dyletswydd ymhell islaw'r hyn sy'n ofynnol gan gyfraith iechyd a diogelwch a'i bod yn arwain at risg sylweddol;
- bu achos o fethu â chydymffurfio â hysbysiad gwella neu wahardd; neu achoswyd tor-cyfraith eto a fu'n destun rhybudd syml;
- rhoddwyd gwybodaeth ffug yn fwriadol, neu bu bwriad i dwyllo, mewn perthynas â mater sy'n arwain at risg sylweddol;
- ataliwyd arolygwyr yn fwriadol yn ystod eu dyletswyddau cyfreithiol.

41 Lle yr ymosodwyd ar arolygwyr, bydd awdurdodau gorfodi yn ceisio cymorth yr heddlu, gyda'r bwriad o geisio erlyn y troseddwyr.

---

*Canllawiau dedfrydu iechyd a diogelwch mewn perthynas â marwolaeth sy'n deillio o drosedd fel nodwedd sy'n gwaethygu trosedd. Os oes tystiolaeth ddigonol i'r tor-cyfraith achosi'r farwolaeth, mae HSE yn ystyried y dylai achosion o'r fath fynd o flaen y llys fel arfer. Fodd bynnag, bydd achlysuron lle nad yw budd y cyhoedd yn gofyn am erlyniad, yn dibynnu ar natur yr achos o dor-cyfraith a'r amgylchiadau sy'n gysylltiedig â'r farwolaeth.

42 Mae HSE hefyd yn disgwyl, er budd y cyhoedd, y bydd awdurdodau gorfodi yn ystyried erlyn neu'n argymell erlyn lle y mae un neu fwy o'r amgylchiadau canlynol yn berthnasol, ar ôl ymchwiliad neu gysylltiad rheoliadol arall:

- mae'n briodol o dan yr amgylchiadau fel ffordd o dynnu sylw cyffredinol at yr angen i gydymffurfio â'r gyfraith a chynnal y safonau sy'n ofynnol gan y gyfraith, a gall collfarn atal eraill rhag methiannau tebyg i gydymffurfio â'r gyfraith;
- mae tor-cyfraith sydd wedi arwain at risg sylweddol wedi parhau er gwaethaf rhybuddion perthnasol gan gyflogeion, neu eu cynrychiolwyr, neu gan eraill yr effeithir arnynt gan weithgaredd gwaith.

### *Erlyn unigolion*

43 Yn amodol ar yr uchod, dylai awdurdodau gorfodi nodi ac erlyn neu argymell erlyn unigolion os ydynt o'r farn y gwarentir erlyn. Yn arbennig, dylent ystyried y gadwyn reolaeth a'r rôl a chwaraeir gan gyfarwyddwyr a rheolwyr unigol, a dylent gymryd camau yn eu herbyn lle y mae arolygiad neu ymchwiliad yn datgelu y cyflawnwyd y drosedd gyda'u cydsyniad neu gyd-ddealltwriaeth neu y gellir ei phriodoli i esgeulustra ar eu rhan a lle y byddai'n briodol gwneud hynny yn unol â'r polisi hwn. Lle y bo'n briodol, dylai awdurdodau gorfodi geisio diarddel cyfarwyddwyr o dan Ddeddf Anghymwyso Cyfarwyddwyr Cwmnïau 1986.

### *Cyhoeddusrwydd*

44 Dylai awdurdodau gorfodi yng Nghymru a Lloegr wneud trefniadau i gyhoeddi enwau'r holl gwmnïau ac unigolion a gollfarnwyd yn ystod y 12 mis diwethaf am dorri cyfraith iechyd a diogelwch yn flynyddol. Dylent hefyd wneud trefniadau ar gyfer sicrhau bod gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd am y collfarnau hyn ac am hysbysiadau gwella a gwahardd a roddwyd ganddynt.

45 Dylai awdurdodau gorfodi yng Nghymru a Lloegr hefyd ystyried tynnu sylw'r cyfryngau ym mhob achos at wybodaeth ffeithiol am gyhuddiadau a gyflwynwyd i'r llysoedd, ond dylid cymryd gofal arbennig i osgoi unrhyw gyhoeddusrwydd a allai effeithio ar dreial teg. Dylent ystyried cyhoeddi unrhyw gollfarn hefyd a allai dynnu sylw at yr angen i gydymffurfio â gofynion iechyd a diogelwch, neu atal unrhyw un sy'n cael ei demtio i anwybyddu eu dyletswyddau o dan gyfraith iechyd a diogelwch. Yn yr Alban, mater i Swyddfa'r Goron yw penderfyniadau mewn perthynas â chyhoeddusrwydd erlyniadau.

### *Camau gweithredu gan y llysoedd*

46 Mae'r gyfraith iechyd a diogelwch yn rhoi cyfle sylweddol i lysoedd gosbi troseddwyr ac atal eraill, yn cynnwys dedfryd o garchar ar gyfer rhai troseddau. Gellir gosod dirwyon anghyfyngedig gan lysoedd uwch. Bydd HSE yn parhau i geisio codi ymwybyddiaeth y llysoedd o ddifrifoldeb troseddau iechyd a diogelwch a graddau llawn eu pwerau dedfrydu, tra'n cydnabod mai penderfyniad y llysoedd yw p'un a yw rhywun yn euog ai peidio a pha gosb i'w rhoi ar ôl collfarnu, os o gwbl. Atodir rhestr o'r sancsiynau sydd ar gael i'r llysoedd ar hyn o bryd i'r datganiad hwn.

47 Yng Nghymru a Lloegr, dylai'r awdurdodau gorfodi dynnu sylw'r llys, lle y bo'n briodol, at yr holl ffactorau sy'n berthnasol i benderfyniad y llys o ran pa ddedfryd sy'n briodol ar ôl collfarn. Mae'r Llys Apêl wedi rhoi arweiniad am rai o'r ffactorau a ddylai lywio llysoedd mewn achosion iechyd a diogelwch *(R v F Howe and Son (Engineers) Ltd* [1999] 2 All ER, a dyfarniadau dilynol). Mae HSE yn nodi i'r Arglwydd Ganghellor ddweud nad yw rhywun a niweidir gan dor-cyfraith iechyd a diogelwch yn llai o ddioddefwr na rhywun yr ymosodir arno.

### *Cynrychioliadau i'r llysoedd*

48 Mewn achosion difrifol iawn, a phan geir cyfle, dylai awdurdodau gorfodi yng Nghymru a Lloegr ystyried rhoi gwybod i'r ynadon bod y drosedd mor ddifrifol fel y gallent ei anfon am wrandawiad neu ddedfryd yn yr uwch lys lle y gellir gosod

cosbau uwch. Wrth ystyried pa gynrychioliadau i'w gwneud, dylai awdurdodau gorfodi ystyried canllawiau'r Llys Apêl: dywedodd y Llys Apêl 'In our judgment magistrates should always think carefully before accepting jurisdiction in health and safety at work cases, where it is arguable that the fine may exceed the limit of their jurisdiction or where death or serious injury has resulted from the offence'.

49 Yn yr Alban dyletswydd y Procuradur Ffisgal yw tynnu sylw'r llys at ddifrifoldeb unrhyw drosedd.

## Marwolaeth yn y gwaith

50 Lle y bu achos o dor-cyfraith a arweiniodd at farwolaeth sy'n gysylltiedig â gwaith, mae angen i awdurdodau gorfodi ystyried a allai amgylchiadau'r achos gyfiawnhau cyhuddiad o ddynladdiad neu ddynladdiad corfforaethol (lladdiad beius neu laddiad corfforaethol yn yr Alban).

51 Yng Nghymru a Lloegr, er mwyn sicrhau bod penderfyniadau am ymchwiliad ac erlyniad yn cael eu cydgysylltu'n agos ar ôl marwolaeth sy'n gysylltiedig â gwaith, mae HSE, Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu, Heddlu Trafnidiaeth Prydain, Gwasanaeth Erlyn y Goron, y Gymdeithas Llywodraeth Leol a Swyddfa Rheoleiddio'r Rheilffyrdd wedi cytuno a chyhoeddi *Work-related deaths: A protocol for liaison* ar y cyd. Mae sefydliadau eraill nad ydynt yn llofnodwyr, fel Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau, yr Awdurdod Hedfan Sifil a Chymdeithas y Prif Swyddogion Tân wedi cytuno y byddant yn ystyried y protocol wrth ymateb i farwolaethau sy'n gysylltiedig â gwaith.

52 Yn yr Alban, cytunwyd ar brotocol ar wahân ar gyfer marwolaethau sy'n gysylltiedig â gwaith rhwng Swyddfa'r Goron, Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu yn yr Alban, Heddlu Trafnidiaeth Prydain a HSE. Mae awdurdodau lleol yr Alban yn cefnogi'r protocol.

53 Yng Nghymru a Lloegr yr heddlu sy'n gyfrifol am benderfynu a ddylid dilyn ymchwiliad i ddynladdiad neu ddynladdiad corfforaethol ac a ddylid cyfeirio'r achos at Wasanaeth Erlyn y Goron i ystyried cyhuddiadau posibl o ddynladdiad. Yr awdurdodau gorfodi sy'n gyfrifol am ymchwilio i droseddau iechyd a diogelwch posibl. Os bydd yr awdurdodau gorfodi yn dod o hyd i dystiolaeth yn ystod eu hymchwiliad iechyd a diogelwch sy'n awgrymu dynladdiad neu ddynladdiad corfforaethol, dylent ei throsglwyddo i'r heddlu. Os bydd yr heddlu neu Wasanaeth Erlyn y Goron yn penderfynu peidio â dilyn achos o ddynladdiad neu ddynladdiad corfforaethol, fel arfer bydd yr awdurdodau gorfodi yn dwyn erlyniad iechyd a diogelwch yn unol â'r polisi hwn.

54 Yn yr Alban, erys y cyfrifoldeb dros ymchwilio i farwolaethau sydyn neu amheus gyda'r Procuradur Ffisgal a fydd yn rhoi cyfarwyddyd i'r heddlu. Bydd yr heddlu'n arwain yr ymchwiliad i unrhyw droseddau posibl sy'n gysylltiedig â lladdiad beius neu laddiad corfforaethol. Bydd HSE neu'r awdurdod lleol yn ymchwilio i unrhyw droseddau iechyd a diogelwch posibl. O dan y protocol marwolaethau sy'n gysylltiedig â gwaith yn yr Alban, caiff ymchwiliadau eu cydgysylltu a rhennir tystiolaeth. Oni fydd erlyniad o dan yr un amgylchiadau, mae'n ofynnol i'r Procuradur Ffisgal gynnal Ymchwiliad i Ddamwain Angheuol i amgylchiadau'r farwolaeth a achoswyd gan ddamwain sy'n gysylltiedig â gwaith*. Gellir cynnal Ymchwiliad hefyd lle ymddengys y bydd o fudd i'r cyhoedd ar y sail bod y farwolaeth yn sydyn, yn amheus neu na ellir ei hegluro, neu os digwyddodd o dan amgylchiadau sy'n codi pryder difrifol i'r cyhoedd.

* Yn yr achos hwn, damwain yn ystod cyflogaeth, os oedd yr un a fu farw yn gyflogai, neu tra'n ymgymryd â'i alwedigaeth, os oedd yn gyflogwr neu'n berson hunangyflogedig.

## Cyrff y Goron

55 Rhaid i gyrff y Goron gydymffurfio â gofynion iechyd a diogelwch, ond nid ydynt yn destun gorfodaeth statudol, yn cynnwys erlyniad. Mae Swyddfa'r Cabinet wedi sefydlu trefniadau anstatudol ar gyfer gorfodi gofynion iechyd a diogelwch ymhlith cyrff y Goron. Mae'r trefniadau hyn yn galluogi HSE i gyflwyno hysbysiadau gwella a gorfodi anstatudol ac ar gyfer ceryddu cyrff y Goron mewn achosion lle y gellid bod wedi cyfiawnhau erlyniad, oni bai am imiwnedd y Goron. Wrth benderfynu pryd i ymchwilio neu pa fath o gamau gorfodi i'w cymryd, dylai HSE ddilyn yr un ymagwedd, cyhyd ag y bo'n bosibl, ag ar gyfer cyrff nad ydynt yn gyrff y Goron, yn unol â'r polisi gorfodi hwn.

# Cosbau ar gyfer troseddau iechyd a diogelwch

**Mae Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ac ati 1974 (Deddf HSW), adran 33 (fel y'i diwygiwyd)** yn nodi'r troseddau a'r cosbau uchaf posibl o dan ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch.

**Methu â chydymffurfio â hysbysiad gwella neu wahardd, neu orchymyn rhwymedi llys** (a gyflwynir o dan y Ddeddf HSW, adrannau 21, 22 a 42 yn y drefn honno):

| | |
|---|---|
| Cosb uchaf llys is | £20 000 a/neu 12 mis o garchar* |
| Cosb uchaf llys uwch | Dirwy anghyfyngedig a/neu 2 flynedd o garchar |

**Torri adrannau 2-6 o Ddeddf HSW**, sy'n nodi dyletswyddau cyffredinol cyflogwyr, unigolion hunangyflogedig, unigolion sy'n rheoli safleoedd, cyflogeion, gweithgynhyrchwyr a chyflenwyr i ddiogelu iechyd a diogelwch gweithwyr ac ael dau'r cyhoedd y gellir effeithio arnynt gan weithgareddau gwaith:

| | |
|---|---|
| Cosb uchaf llys is | £20 000 a/neu 12 mis o garchar* |
| Cosb uchaf llys uwch | Dirwy anghyfyngedig a/neu 2 flynedd o garchar |

**Y rhan fwyaf o achosion eraill o dorri Deddf HSW,† mynd yn groes i ofynion trwyddedu a thorri'r holl reoliadau iechyd a diogelwch o dan y Ddeddf.** Mae'r rheoliadau yn gosod dyletswyddau cyffredinol a mwy penodol, fel y gofynion i gynnal asesiad risg addas a digonol neu ddarparu offer diogelwch personol addas. Mae'r gofynion trwyddedu yn berthnasol i weithgareddau perygl uchel megis gosodiadau niwclear a stripio asbestos:

| | |
|---|---|
| Cosb uchaf llys is | £20 000 a/neu 12 mis o garchar* |
| Cosb uchaf llys uwch | Dirwy anghyfyngedig a/neu 2 flynedd o garchar |

* Mae'r opsiwn dedfrydu o 12 mis yn berthnasol i'r Alban ond bydd ond yn berthnasol yng Nghymru a Lloegr pan fo adran 154(1) o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003 wedi'i gweithredu.

† Mae'r cosbau yn amrywio o ran rhai o'r troseddau o dan adran 33 o Ddeddf HSW. Nodir y manylion yn y nodyn esboniadol i Ddeddf Iechyd a Diogelwch (Troseddau) 2008.

**Ar ôl erlyn cyfarwyddwyr am droseddau ditiol mewn perthynas â rheoli cwmni** (pob un o'r uchod, drwy rinwedd Deddf HSW adrannau 36 a 37), gall llysoedd gyflwyno gorchymyn diarddel (Deddf Anghymwyso Cyfarwyddwyr Cwmnïau 1986, adrannau 1 a 2). Mae'r llysoedd wedi arfer y pŵer hwn yn dilyn collfarnau iechyd a diogelwch. Mae arolygwyr iechyd a diogelwch yn tynnu sylw'r llys at y pŵer hwn pan fo'n briodol.

| | |
|---|---|
| Cosb uchaf llys is | Diarddel am 5 mlynedd |
| Cosb uchaf llys uwch | Diarddel am 15 mlynedd |

# Gwybodaeth bellach

Ceir rhagor o wybodaeth am y ffordd y caiff deddfwriaeth iechyd a diogelwch ei gorfodi ac am ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch yn gyffredinol ar y wefan www.hse.gov.uk ac yn y taflenni canlynol hyn am ddim:

*What to expect when a health and safety inspector calls: A brief guide for businesses, employees and their representatives*Taflen HSC14 HSE Books 1998 (copi sengl am ddim) Mae fersiwn y we ar gael yn www.hse.gov.uk/pubns/hsc14.pdf

*Work-related deaths: A protocol for liaison* Llyfryn MISC491 HSE Books 2003 www.hse.gov.uk/pubns/misc491.pdf

*Work-related deaths: A protocol for liaison among the Crown Office and Procurator Fiscal Service, the Health and Safety Executive, the Association of Chief Police Officers (Scotland) and British Transport Police 2006*

Gall awdurdodau lleol gynhyrchu eu gwybodaeth bellach eu hunain am orfodi iechyd a diogelwch. Gallwch gael cyfeiriad a rhif ffôn eich awdurdod lleol yn eich llyfr ffôn lleol.

Mae cyhoeddiadau HSE sydd ar werth ac am ddim ar gael trwy archebu drwy'r post gan HSE Books, PO Box 1999, Sudbury, Suffolk CO10 2WA Ffôn: 01787 881165 Ffacs: 01787 313995 Gwefan: www.hsebooks.co.uk (Mae cyhoeddiadau HSE sydd ar werth hefyd ar gael o siopau llyfrau a gellir lawrlwytho taflenni am ddim o wefan HSE: www.hse.gov.uk.)

Am wybodaeth ynglŷn â iechyd a diogelwch, neu i adrodd anghysondebau neu anghywirdebau yn y cyfarwyddyd hwn, ymwelwch â www.hse.gov.uk/ . Gallwch weld cyfarwyddyd HSE ar-lein ac archebu cyhoeddiadau prisiedig o'r wefan. Mae cyhoeddiadau HSE ar gael hefyd o siopau llyfrau.

Mae'r daflen hon ar gael yn www.hse.gov.uk/pubns/HSE41W.pdf.

©ⓗ *Hawlfraint y Goron* Os ydych yn dymuno ail-ddefnyddio'r wybodaeth hon ymwelwch â www.hse.gov.uk/copyright.htm am fanylion. Cyhoeddwyd yn gyntaf 02/09.